# Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru
# Medi 2023

Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol, ar gyfer defnyddwyr ystadegau yng Nghymru, ar ein datblygiadau, ein hymgyngoriadau a'n cynlluniau diweddaraf.

Gellir gweld rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar ar ein calendr i ddod.

## Contents

Yr economi a'r farchnad lafur ........ 3
- Yr economi ........ 3
- Tablau Mewnbwn-Allbwn ........ 3
- Y farchnad lafur ........ 3

Addysg ........ 5
- Ysgolion ........ 5
- Addysg ôl-16 ........ 5
- Addysg uwch a chyllid myfyrwyr ........ 5

Tai ........ 7
- Cyflwr tai a thlodi tanwydd ........ 8

Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ........ 9
- Iechyd y Boblogaeth ........ 9
- Gofal sylfaenol a chymunedol ........ 9
- Ystadegau ysbytai ........ 9
- Gweithlu a gwariant y GIG ........ 9
- Ymateb i'r coronafeirws (COVID-19) ........ 10
- Ystadegau eraill ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ........ 10

Arolwg Cenedlaethol Cymru ........ 11
- Cyhoeddiadau ........ 11

Cyfiawnder cymdeithasol ........ 12
- Tlodi ........ 12
- Costau byw ........ 12

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) ........ 12
Yr ymateb i'r argyfwng yn Wcráin ........ 12
Diogelwch Cymunedol ........ 12
Cydraddoldeb ........ 14
Masnach ........ 15
Arolwg Masnach Cymru ........ 15
Masnach Nwyddau Rhyngwladol Cymru ........ 15
Trafnidiaeth ........ 16
Y Gymraeg ........ 17
Cyfrifiad 2021 ........ 17
Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ........ 17
Amaethyddiaeth a'r amgylchedd ........ 19
Datgarboneiddio a'r Newid yn yr Hinsawdd ........ 19
Ymchwil Data Gweinyddol ........ 20
Poblogaeth a Demograffeg ........ 21
Manylion cyswllt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru ........ 21
Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau ........ 21
Pwnc-benodol ........ 21
Twitter ........ 21
Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru ........ 21
Ymholiadau gweinyddol ........ 21

## Yr economi a'r farchnad lafur

### Yr economi

Ym mis Mehefin, gwnaethom gyhoeddi datganiad Dadansoddiad o faint busnesau a oedd yn cwmpasu data ar gyfer 2022. Mae'r datganiad blynyddol hwn yn darparu data ar strwythur y mentrau sy'n weithredol yng Nghymru, gan gynnwys amcangyfrifon ar gyfer y busnesau lleiaf un sy'n gweithredu islaw trothwy Treth ar Werth (TAW). Gwnaethom hefyd gyhoeddi amcangyfrifon o gynhyrchiant isranbarthol ar gyfer 2021.

Ym mis Gorffennaf, cyhoeddwyd yr amcangyfrifon diweddaraf o gyfanswm gwariant ar ymchwil a datblygu ar draws sectorau marchnad gwahanol ar gyfer 2021.

Ym mis Awst, gwnaethom gyhoeddi ein datganiad dangosyddion allbynnau tymor-byr o fis Ionawr i fis Mawrth 2023.

Rydym hefyd wedi parhau i ddiweddaru ein Economi Cymru mewn rhifau: dangosfwrdd rhyngweithiol.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch ystadegau.economi@llyw.cymru.

### Tablau Mewnbwn-Allbwn

Rydym wedi dechrau ar waith i adeiladu'r set gyntaf o dablau a fydd yn cwmpasu'r flwyddyn 2019. Rydym yn parhau i archwilio'r ffynonellau data sydd ar gael a dadansoddiadau diwydiant y mae modd eu cyflawni.

Byddai gennym ddiddordeb mewn clywed gan bartïon â diddordeb os oes unrhyw ddadansoddiadau diwydiant yn benodol yr hoffech eu gweld yn y tablau. Os oes gennych hefyd unrhyw ffynonellau data a allai ein helpu i lunio'r dadansoddiadau hyn, byddai'n hynod ddefnyddiol i ni wybod amdanynt.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch tablaumewnbwnallbwn@llyw.cymru.

### Y farchnad lafur

Rydym yn parhau i gyhoeddi ein datganiad misol trosolwg o'r farchnad lafur, sy'n dod ag amrywiaeth o wahanol ffynonellau mewn perthynas â'r farchnad lafur ynghyd er mwyn rhoi'r darlun diweddaraf o'r effaith y mae digwyddiadau gwahanol yn ei chael ar y farchnad lafur.

Ym mis Gorffennaf, gwnaethom gyhoeddi ein data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar ystadegau'r farchnad lafur ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023 sy'n cynnwys data ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU yn ogystal ag ardaloedd lleol. Caiff y diweddariad nesaf ar y datganiad ystadegol hwn ei gyhoeddi ym mis Hydref 2023.

Mae allbynnau eraill yn cynnwys y diweddariad chwarterol ar bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) a oedd yn cwmpasu'r data ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2023, a gyhoeddwyd ar 31 Awst 2023.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch ystadegau.yfarchnadlafur@llyw.cymru

# Addysg

## Ysgolion

Gwnaethom barhau i gyhoeddi data misol ar bresenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir drwy gydol tymor yr haf. Bydd y datganiad yn ailddechrau yn yr hydref gyda'r datganiad cyntaf wedi'i amserlennu ar gyfer mis Medi.

Ar ôl y datganiad data cyntaf ar gymhwystra i gael prydau ysgol am ddim o Gyfrifiad Ysgolion mis Ionawr 2023 ar 25 Mai, gwnaethom ddadansoddi'r data yn fanylach fel rhan o'n rhaglen waith arferol a gododd rai pryderon ynghylch y data hyn. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, gwnaethom gynnal gwaith dilysu ychwanegol a gwnaethom ddiwygio data prydau ysgol am ddim o gyfrifiad mis Ionawr 2023 a gyhoeddwyd ar 16 Awst. Bydd y set ddata lawn o gyfrifiad ysgolion mis Ionawr 2023 yn cael ei rhyddhau ar 19 Medi.

Ni chyhoeddwyd unrhyw ddatganiadau ystadegol eraill o fis Mehefin i fis Awst. Yn ystod yr hydref caiff nifer o ddatganiadau ystadegol eu cyhoeddi fel a ganlyn:

- Canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion ar gyfer mis Ionawr 2023 ar 19 Medi 2023
- Cyflawniad academaidd disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3: 2023 ar 20 Medi 2023 (daeth y casgliad o asesiadau dechreuol i ben yn 2022 yn sgil cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd ac nid oes diweddariad ar y data hynny).
- Canlyniadau arholiadau ar 5 Hydref 2023

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech roi adborth, gallwch gysylltu â ni yn ystadegau.ysgolion@llyw.cymru.

## Addysg ôl-16

Ym mis Mehefin cyhoeddwyd yr ystadegau blynyddol cyntaf ar raglen Twf Swyddi Cymru+, yn cwmpasu blwyddyn ariannol 2022-23. Mae'r datganiad hwn yn rhoi mwy o fanylion na diweddariadau chwarterol blaenorol gydag ystadegau ychwanegol yn ôl nodweddion dysgwyr ar gael ar StatsCymru.

Ym mis Awst, gwnaethom gyhoeddi'r diweddariad diweddaraf i'r dangosfwrdd prentisiaethau a ddechreuwyd, oedd yn cwmpasu chwarter 2 blwyddyn academaidd 2022/23 (mis Tachwedd 2022 i fis Ionawr 2023). Mae prentisiaethau gradd bellach wedi'u cynnwys yn y mesur tuag at darged Llywodraeth Cymru o greu 125,000 o brentisiaethau pob oed newydd.

Er mwyn rhoi adborth neu gael unrhyw wybodaeth bellach, e-bostiwch ystadegau.addysgol16@llyw.cymru.

## Addysg uwch a chyllid myfyrwyr

Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi ein datganiad ystadegol yn cwmpasu Addysg Gychwynnol i Athrawon ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22.

Byddwn yn cyhoeddi ein datganiad yr iaith Gymraeg mewn addysg uwch ar 21 Medi 2023, a fydd hefyd yn cwmpasu blwyddyn academaidd 2021/22.

Er mwyn rhoi adborth neu ar gyfer unrhyw wybodaeth bellach, e-bostiwch addysguwchachyllidmyfyrwyr.yst@llyw.cymru.

## Tai

Mae gwybodaeth reoli fisol ar ddarpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan yn parhau i gael ei chyhoeddi'n rheolaidd, gydag oedi o ryw ddeufis. Yn dilyn adborth gan ddefnyddwyr, o fis Gorffennaf 2023 ymlaen, gwnaethom ehangu'r data a gyhoeddwyd ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2023 ymlaen. Er mwyn gwella defnyddioldeb ac ansawdd y data ymhellach, rydym wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gryfhau'r canllawiau casglu data, yn ogystal â diwygio rhai eitemau data a gasglwyd. Rydym yn bwriadu ehangu'r amrediad o ddata a gyhoeddir unwaith y bydd y datblygiad hwn wedi'i gwblhau.

Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau wedi cyhoeddi llythyr i'r Prif Ystadegydd yn amlinellu canfyddiadau ei hadolygiad o'n darpariaeth llety digartrefedd a gwybodaeth reoli fisol am gysgu allan (Saesneg yn unig) yn erbyn pileri'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau (Saesneg yn unig).

Cyhoeddwyd dau adroddiad a oedd yn gysylltiedig ag ail gartrefi ar 20 Mehefin 2023. Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddata Cyfrifiad 2021 ar nifer a lleoliad yr ail gyfeiriadau, gan gynnwys y rhai a ddefnyddiwyd fel ail gartrefi. Cyhoeddwyd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn crynhoi'r prif ganlyniadau ar gyfer Cymru ochr yn ochr â hyn. Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru erthygl ystadegol "Ail gartrefi: Beth mae'r data yn ei ddweud wrthym?". Darparodd hyn wybodaeth am ffynonellau data ar ail gartrefi, gan gynnwys gwybodaeth am ddiffiniadau, ymdriniaeth, cryfderau, cyfyngiadau a chrynodeb o'r data.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ailddechrau cyhoeddi amcangyfrifon stoc anheddau yn sgil cyhoeddi amcangyfrifon stoc anheddau Cyfrifiad 2021.

Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddeall p'un a fydd eu datblygiad prisiau rhent preifat (SYG) (Saesneg yn unig) yn diwallu anghenion defnyddwyr yng Nghymru, neu a fydd angen i ni adfer cyhoeddiad rhenti sector preifat Llywodraeth Cymru.

Ers y diweddariad diwethaf, mae'r allbynnau ystadegau tai rheolaidd canlynol wedi cael eu cyhoeddi:

- Gwerthiannau tai landlordiaid cymdeithasol: Ebrill 2022 i Fawrth 2023 (cyhoeddwyd 3 Awst 2023)

Mae'r Gofrestrfa Tir a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (Saesneg yn unig) yn parhau i gyhoeddi data misol Mynegai Prisiau Tai y DU (Cofrestrfa Tir Ei Fawrhydi) (Saesneg yn unig) ar gyfer Cymru a gweddill y DU.

Cysylltwch â ni drwy flwch post ystadegau.tai@llyw.cymru os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu geisiadau.

### Cyflwr tai a thlodi tanwydd

Rydym wedi cyhoeddi dau dangosfwrdd rhyngweithiol yn ddiweddar:

- Tlodi tanwydd yng Nghymru: dangosfwrdd rhyngweithiol – cyhoeddwyd hwn ym mis Mehefin 2023 ac mae'n dwyn ynghyd ddata o Arolwg Byw yng Nghymru 2008, Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 a model ynni domestig y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREDEM) i amlygu tueddiadau mewn tlodi tanwydd yng Nghymru.
- Tystysgrifau Perfformiad Ynni ar gyfer cartrefi yng Nghymru: dangosfwrdd rhyngweithiol – mae'r dangosfwrdd hwn, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023, yn dangos sut mae effeithlonrwydd ynni yn amrywio ar draws mathau gwahanol o gartrefi yng Nghymru.

Croesawn unrhyw adborth ar y dangosfyrddau hyn drwy flwch negeseuon e-bost ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru.

Ym mis Awst 2023, gwnaethom gyhoeddi'r allbwn rheolaidd canlynol:

- Adeiladu tai newydd: Ebrill 2022 i Fawrth 2023

Rydym wrthi'n archwilio sut y gallwn ddefnyddio setiau data gweinyddol i ddatblygu ystadegau adeiladu tai newydd. Y bwriad yw cyhoeddi canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn yn ystod tymor yr Haf 2024.

## Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

### Iechyd y Boblogaeth

Gan ddefnyddio data o Gyfrifiad 2021, gwnaethom gynhyrchu dadansoddiad newydd yn ôl grŵp ethnig sy'n edrych ar iechyd cyffredinol, statws anabledd, rhoi gofal yn ddi-dâl ac amryw ddeilliannau cymdeithasol-economaidd eraill yng Nghymru. Yn ogystal â diweddariad i'r adroddiad blynyddol ar ffyrdd o fyw cysylltiedig ag iechyd ac ymddygiadau oedolion yn seiliedig ar yr arolwg Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer Cymru.

### Gofal sylfaenol a chymunedol

Rydym yn parhau i ddiweddaru ac ychwanegu cipolwg ychwanegol i lawer o'n hallbynnau, gan gynnwys y chwarter hwn sy'n diweddaru'r adroddiadau blynyddol ar Ystadegau mamolaeth a genedigaethau ac Ystadegau bwydo ar y fron sy'n cynnwys dadansoddiadau newydd a chipolwg yn ôl grŵp ethnig nad oedd ar gael yn flaenorol.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi'r adroddiad blynyddol newydd y chwarter hwn ar Ystadegau gofal llygaid yn crynhoi gwasanaethau gofal llygaid gofal sylfaenol a rhywfaint o ofal eilaidd, yn ogystal â chipolwg ar y gweithlu sylfaenol.

Cafwyd diweddariadau hefyd ar Raglen Plant Iach Cymru, cofnodion cyffredinrwydd clefydau a nodwyd gan feddygon teulu yn y contract gwasanaethau meddygol cyffredinol.

### Ystadegau ysbytai

Rydym yn parhau i wella ein diweddariadau misol ar berfformiad a gweithgaredd y GIG sy'n cynnwys data ar ofal heb ei drefnu a gofal wedi'i drefnu. Yn y chwarter diwethaf, rydym wedi dechrau cysylltu â gwybodaeth weithredol am yr oedi wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys er mwyn parhau i ddarparu darlun cyfannol.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws y DU i gynorthwyo dealltwriaeth defnyddwyr cymorth yn well o gymariaethau o ystadegau perfformiad y GIG ledled y DU ac yn ystod y chwarter hwn rydym wedi cynhyrchu blog newydd yn ein cyfres ar berfformiad y GIG: Diweddariad y Prif Ystadegydd: cymharu ystadegau perfformiad y GIG ar draws y DU.

### Gweithlu a gwariant y GIG

Roedd y chwarter hwn yn cynnwys cyhoeddi casgliad newydd o ystadegau arbrofol ar swyddi gwag y GIG. Ar hyn o bryd, mae hwn yn nodi swyddi gwag yn y GIG ar lefel Cymru a grŵp staff, ond rydym yn gobeithio gallu rhoi gwybod i'r bwrdd iechyd lleol yn fuan.

Cafwyd diweddariadau chwarterol hefyd ar y staff a gyflogir gan y GIG ac absenoldeb salwch y GIG.

### Ymateb i'r coronafeirws (COVID-19)

Yn ystod mis Mawrth 2022, cyhoeddwyd Gyda'n gilydd tuag at ddyfodol mwy diogel: COVID-19 – Cynllun pontio hirdymor Cymru o bandemig i endemig. Mae'r ddogfen hon yn egluro bod y cysylltiad rhwng haint COVID-19, salwch difrifol, cyfnodau yn yr ysbyty, a marwolaethau wedi gwanhau'n sylweddol. Yn unol â'r cynllun hwn, rydym bellach wedi rhoi terfyn ar ein holl hallbynnau COVID-19 blaenorol a oedd yn cael eu cynhyrchu'n rheolaidd.

Bydd trosolwg llawn o'r hyn mae'r dangosyddion COVID-19 hyn wedi'u cwmpasu dros amser a'r data eu hunain yn parhau i fod ar gael ar ein tudalen ystadegau ac ymchwil cysylltiedig â coronafeirws (COVID-19) at ddibenion hanesyddol ond ni fyddant yn cael eu diweddaru mwyach. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dal i ddiweddaru cynnwys arall ar COVID-19 bob wythnos ar y dangosfyrddau gwyliadwriaeth coronafeirws (COVID-19) (Iechyd Cyhoeddus Cymru).

### Ystadegau eraill ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

Yn y chwarter hwn hefyd cafwyd diweddariadau rheolaidd i amrywiaeth o ystadegau iechyd meddwl, gan gynnwys: Nifer y bobl a gadwyd o dan Adran 135 a 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, atgyfeiriadau ac amseroedd aros ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl ac amseroedd aros am apwyntiad cyntaf gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed arbenigol.

Yn ogystal, cafwyd amrywiaeth o ystadegau eraill ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys: mesurau gofal llygaid a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu. Mae nifer o allbynnau eraill ar gael gan sefydliadau partner, gan gynnwys diweddariadau ar gamddefnyddio sylweddau a Data derbyn cleifion i'r ysbyty (gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru) a Mynychder canser (gan Iechyd Cyhoeddus Cymru).

Mae ein holl ddatganiadau ystadegol ar gael ar y wefan Ystadegau ac ymchwil ac mae data sylfaenol manylach ar gael yn ardal iechyd a gofal cymdeithasol StatsCymru.

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch ystadegau.iechyd@llyw.cymru.

## Arolwg Cenedlaethol Cymru

### Datganiad Cyntaf

Ar 11 Gorffennaf 2023, gwnaethom gyhoeddi'r canlyniadau o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23. Gellir archwilio'r canlyniadau gan ddefnyddio ein Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau ac mae'r uchafbwyntiau wedi'u crynhoi yn y prif adroddiad.

### Cyhoeddiadau

Cysylltwch â ni yn arolygon@llyw.cymru os bydd gennych unrhyw gwestiynau.

## Cyfiawnder cymdeithasol

### Tlodi

Rydym wedi cyhoeddi crynodebau o ddata i Gymru ar dlodi incwm cymharol, amddifadedd materol a thlodi parhaus. Mae'r data diweddaraf yn yr adroddiadau hyn yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022.

### Costau byw

Rydym yn parhau i gyhoeddi diweddariadau misol o ddata StatsCymru ar Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a wnaed o'r Gronfa Cymorth Dewisol er mwyn rhoi gwybodaeth amserol am yr argyfwng costau byw. Ym mis Mehefin, gwnaethom gyhoeddi dangosfwrdd rhyngweithiol yn cyflwyno amcangyfrifon tlodi tanwydd a data cysylltiedig ar gyfer Cymru. Cyfeirir at y rhain a ffynonellau eraill o ddata ar yr argyfwng costau byw mewn blog a gyhoeddwyd gennym ym mis Rhagfyr. Byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau perthnasol i sicrhau bod data ar lefel Cymru ar fetrigau costau byw allweddol ar gael lle bo hynny'n bosibl.

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Rydym newydd gyhoeddi ein bod yn bwriadu cyhoeddi'r MALIC nesaf ar ddiwedd 2025 neu ar ddechrau 2026, a byddwn yn cadarnhau hyn pan fo'n bosibl. Darllenwch ein blog am ragor o gefndir ar amseru ar y mynegai nesaf, a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar a'r newid mewn ffiniau ardal fach.

Os hoffech gael eich hysbysu pan gaiff gwybodaeth ddiweddaraf MALIC ei chyhoeddi, e-bostiwch ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru i danysgrifio.

### Yr ymateb i'r argyfwng yn Wcráin

Rydym yn parhau i weithio gyda SYG, y Swyddfa Gartref, yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r llywodraethau datganoledig eraill i gynhyrchu ystadegau sy'n ymwneud â'r argyfwng yn Wcráin.

Mae'r ystadegau wythnosol ar nifer y ceisiadau am fisâu, nifer y fisâu a roddir a nifer y bobl sy'n cyrraedd y DU sydd â noddwyr yng Nghymru (yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau) (Saesneg yn unig) yn parhau' i gael eu diweddaru.

### Diogelwch Cymunedol

Rydym wedi gohirio'r datganiadau Perfformiad awdurdodau tân ac achub: Ebrill 2022 i Fawrth 2023 ac Ystadegau gweithredol yr awdurdod tân ac achub: Ebrill 2022 i Fawrth 2023 yr oedd disgwyl iddynt ddod allan ar 7 Medi 2023. Pwrpas hyn yw caniatáu ar gyfer cynnwys amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn wedi'i ail-leoli, a fydd yn cael eu cyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Medi 2023. Bydd dyddiad newydd yn cael ei gadarnhau maes o law.

Os ydych yn defnyddio'r ystadegau tân a hoffech gyfrannu unrhyw adborth, cysylltwch ag ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru.

### Trosedd a Chyfiawnder

Fel rhan o waith ehangach i wella'r data cyfiawnder sydd ar gael ar gyfer Cymru, rydym wedi bod yn datblygu dangosfyrddau Power BI i ddwyn ynghyd amrediad o ddata cyfiawnder Cymru i un lle hygyrch. Cyhoeddwyd y dangosfwrdd cyntaf o'r rhain, sy'n canolbwyntio ar gyfiawnder ieuenctid, ar 31 Awst 2023. Mae'r cyfiawnder i ieuenctid hwn yn cynnwys data ar y canlynol:

- Nifer a nodweddion y plant (10 i 17 oed) sydd wedi cyflawni troseddau wedi'u profi
- Nifer y troseddau o'r fath, gan gynnwys y math o drosedd a'i difrifoldeb
- Y deilliannau ar gyfer y troseddau wedi'u profi hyn, fel rhybuddion neu ddedfrydau
- Dangosyddion perfformiad cyfiawnder ieuenctid, sy'n cynnwys llety priodol, oriau addysg neu hyfforddiant ac asesiadau ac ymyriadau ar gyfer iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

Os oes gennych unrhyw adborth am y dangosfwrdd hwn neu awgrymiadau am ddangosfyrddau i'r dyfodol, cysylltwch â ni ar ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru.

## Cydraddoldeb

Ar 31 Awst, gwnaethom gyhoeddi diweddariadau i'n Ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol (Arolwg Blynddol o'r Boblogaeth): 2004 i Mawrth 2023 chwarterol gyda data ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ym mis Mawrth 2023. Os ydych yn defnyddio'r datganiadau hyn, e-bostiwch ni yn ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru fel y gallwn eich hysbysu am unrhyw ddatblygiadau.

Ar 5 Gorffennaf, gwnaethom gyhoeddi'r bwletin ystadegol Gwahaniaethau grŵp ethnig mewn iechyd, tai, addysg a statws economaidd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021). Mae'r bwletin hwn yn cynnwys data cryno ar grwpiau ethnig gan amryw ddeilliannau cymdeithasol-economaidd ac yn dweud wrthym sut roedd y fath ddeilliannau'n amrywio ar gyfer grwpiau ethnig gwahanol ledled Cymru. Mae'r bwletin hefyd yn rhoi manylion y dadansoddiad grŵp ethnig yn ôl oedran a rhyw ar gyfer cyd-destun.

Mae dadansoddiad a chyhoeddiad pellach o ddata Cyfrifiad 2021 ar y gweill. Anfonwch e-bost at YrUnedTystiolaethCydraddoldeb@llyw.cymru os oes gennych unrhyw adborth.

## Masnach

### Arolwg Masnach Cymru

Mae'r dadansoddiad o'r canfyddiadau o drydydd a phedwerydd Arolwg Masnach Cymru, blynyddoedd cyfeirio 2020 a 2021, bron wedi'i gwblhau a bydd disgwyl iddynt gael eu cyhoeddi ym mis Hydref. Mae prosesau priodoli newydd i wella'r amcangyfrifon gwerthu wedi'u cyflwyno fel rhan o'r fethodoleg nawr bod data wedi'u casglu ers sawl blwyddyn, a'r gobaith yw y bydd hyn yn sefydlogi'r ymatebion dros flynyddoedd. Bydd hyn yn cynhyrchu ôl-gyfres ddiwygiedig o amcangyfrifon gwerthu yn ôl i 2017.

Bydd y pumed Arolwg Masnach sy'n casglu data 2022 yn y maes Hydref i Ragfyr 2023. Bydd y fethodoleg briodoli yn cael ei hehangu i gwmpasu amcangyfrifon am bryniannau. Disgwylir y bydd data 2022 yn barod i'w cyhoeddi erbyn yr haf 2024.

### Masnach Nwyddau Rhyngwladol Cymru

Bydd prif ganlyniadau Ystadegau Masnach Ranbarthol CThEF ar gyfer masnach nwyddau rhyngwladol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2023 yn cael eu cyhoeddi ar 14 Medi 2023.

Ochr yn ochr â'r prif ganlyniadau uchod, caiff y dangosfwrdd masnach rhyngweithiol ei ddiweddaru i ddata'r chwarter diwethaf. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddiweddaru'r dangosfwrdd, gan ymgorffori symiau o ddata a chyflwyno gwelliannau hygyrchedd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag: ystadegau.masnach@llyw.cymru

## Trafnidiaeth

Ym mis Awst 2023, gwnaethom gyhoeddi ein bwletin Hyd a chyflwr ffyrdd: Ebrill 2022 i Fawrth 2023, a oedd yn cyflwyno gwybodaeth gyfredol am hyd a chyflwr ffyrdd yng Nghymru ac yn cynnwys data hyd at flwyddyn ariannol 2022-23.

Ym mis Awst 2023, gwnaethom gyhoeddi ein bwletin Teithio llesol (cerdded a beicio): Ebrill 2022 i Fawrth 2023, gan gyflwyno gwybodaeth am deithio llesol gan bobl yng Nghymru yn ystod 2022-23.

Ym mis Awst 2023, gwnaethom ddiweddaru ein dangosfwrdd rhyngweithiol ar gyfer gwrthdrawiadau ffyrdd gyda data hyd at 2023 C1, yn dangos gwrthdrawiadau ffyrdd, nifer cysylltiedig o anafusion, gan gynnwys dadansoddiadau megis difrifoldeb anafiadau, math o ddefnyddiwr ffordd a lleoliad gwrthdrawiadau ar fap.

I roi adborth ac i wneud sylwadau, cysylltwch ag ystadegau.trafnidiaeth@llyw.cymru

## Y Gymraeg

### Cyfrifiad 2021

Yn ein barn ni, y cyfrifiad yw'r ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a dyma sut mae Llywodraeth Cymru yn mesur cynnydd tuag at wireddu ei huchelgais o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Gwnaethom gyhoeddi y data cyntaf o'r cyfrifiad ar y Gymraeg 2021 ar 6 Rhagfyr y llynedd, gan weithio'n agos gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG).

Ar 8 Mehefin, gwnaethom gyhoeddi dadansoddiad pellach o ddata Cymraeg o Gyfrifiad 2021. Gan ddefnyddio data o adnodd 'Creu set ddata wedi'i theilwra' (SYG) (Saesneg yn unig), gwnaethom gyhoeddi bwletin ystadegol yn dadansoddi'r gallu i siarad Cymraeg yn ôl nodweddion y boblogaeth. Ar wahân i hynny, gwnaethom gyhoeddi pennawd ystadegol am Gyfansoddiad cartrefi yng Nghymru o ran y Gymraeg, gan gynnwys gwybodaeth am drosglwyddo'r Gymraeg rhwng cenedlaethau. Roedd tablau data hygyrch yn cyd-fynd â'r ddau ddatganiad.

### Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Cafodd y data diweddaraf ar y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth eu cyhoeddi ar 27 Gorffennaf.

Yn sgil cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda SYG ar gynllun gwaith a fydd yn ystyried ymhellach rai o'r gwahaniaethau a welwyd gennym rhwng y cyfrifiad a rhai o'n ffynonellau data eraill ar y Gymraeg, megis yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Er enghraifft, amcangyfrifodd y cyfrifiad fod nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru wedi gostwng rhwng 2011 a 2021, ond mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn amcangyfrif bod y nifer wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod yr un cyfnod.

Mae'r Arolwg Blynyddol diweddaraf o'r Boblogaeth yn cynnwys diweddariad ar gynnydd ein cynllun gwaith ar y cyd gyda SYG i wella ein dealltwriaeth o'r prif arolwg a'r ffynonellau data gweinyddol a ddefnyddir i gynhyrchu ystadegau am y Gymraeg. Disgwylir yr allbynnau prosiect cyntaf yn ystod hydref 2023.

E-bostiwch dataiaithgymraeg@llyw.cymru am ragor o wybodaeth.

### Arolwg Defnydd Iaith 2019-20

Cynhaliwyd Arolwg Defnydd Iaith 2019-20 fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru i gael gwybod pa mor aml, ble, pryd a gyda phwy y mae siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg, ac i wybod mwy am eu sgiliau yn yr iaith.

Yn y gorffennol, rydym wedi cyhoeddi canfyddiadau cychwynnol y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru a chrynodebau pwnc ar y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref ac ym myd addysg a Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Bydd y bwletin ystadegol nesaf ar y defnydd o'r

Gymraeg ac agweddau at y Gymraeg yn y gweithle yn cael ei gyhoeddi ar 14 Medi 2023. Bydd y bwletin ystadegol terfynol yn y gyfres yn dilyn hyn, a fydd yn archwilio'r defnydd o'r Gymraeg wrth geisio cael gwasanaethau.

E-bostiwch dataiaithgymraeg@llyw.cymru am ragor o wybodaeth.

## Amaethyddiaeth a'r amgylchedd

### Datgarboneiddio a'r Newid yn yr Hinsawdd

Ym mis Mehefin 2023:

- Cafodd Allyriadau Tiriogaethol Nwyon Tŷ Gwydr 2021 y Gweinyddiaethau Datganoledig (Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol) (Saesneg yn unig) eu cyhoeddi ar wefan y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol.
- Cafodd Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2021 Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol (DESNZ) (Saesneg yn unig) eu cyhoeddi.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ar yr Atodiad Allyriadau Defnydd a ddarperir ochr yn ochr â Datganiad o Gynnydd Cyllideb Garbon 1 i gynnwys data 2020.

E-bostiwch ystadegau.amgylchedd@llyw.cymru i gael rhagor o wybodaeth.

## Ymchwil Data Gweinyddol

Mae ein partneriaeth Ymchwil Data Gweinyddol Cymru, Llywodraeth Cymru ac addysg uwch yn parhau i weithio ar ddarparu ein rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2022 i 2026 (YDG Cymru).

Ym mis Mehefin 2023, gwnaethom gyhoeddi diweddariad i'n prosiect cysylltu data Cefnogi Pobl (mae'r grant hwn bellach wedi'i ddisodli gan y Grant Cymorth Tai). Rydym hefyd wedi cyhoeddi cyfres o Gipolygon Data Ymchwil, Data Gweinyddol Cymru; mae'r rhain yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf o'n Data Gweinyddol: Casgliad Ymchwil Amaethyddol (YDG Cymru), sy'n rhannu data statws preswylwyr sefydlog yr Undeb Ewropeaidd, gan gysylltu canfyddiadau rhagarweiniol ar gyfer addysg (YDG Cymru), ac yn cwmpasu amgylcheddau adeiledig ac iechyd plant yng Nghymru ac Awstralia (BEACHES) (YDG Cymru). Er mwyn rhannu ein dysgu o weithio gyda setiau data ym mis Mehefin 2023, gwnaethom hefyd gyhoeddi Esboniad Data ar setiau data Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal (YDG Cymru).

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch YDGCymru@llyw.cymru.

## Poblogaeth a Demograffeg

Cyhoeddir diweddariad demograffeg chwarterol ar wahân sy'n cynnwys popeth sy'n ymwneud â'r boblogaeth.

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru

## Manylion cyswllt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru

### Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau

E-bostiwch: desg.ystadegau@llyw.cymru

Ffôn: 03000 255050

### Pwnc-benodol

Cysylltiadau ar gyfer ystadegau

### Twitter

YstadegauCymru

### Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru

Newyddion a hysbysiadau

### Ymholiadau gweinyddol

E-bost kasadmin@llyw.cymru